**Gweddi ar Ddydd y Cyhoeddi**

Ni allwn ond rhyfeddu, Arglwydd Iesu, at dy arweiniad grasol a heddychol, ac at groeso'r pererinion a phobl gyffredin Bethania a Jerwsalem i Grist Iesu. Dywedwn gyda'r Salmydd: 'Bendigedig yw'r un sy'n dod yn enw'r Arglwydd. Bendithiwn chwi o dŷ'r Arglwydd. Yr Arglwydd sydd Dduw, rhoes oleuni i ni. Â changau ymunwch yn yr orymdaith hyd at gyrn yr allor.' Gwrandawn hefyd ar y proffwyd Malachi: 'Wele fi'n anfon fy nghennad i baratoi y ffordd o'm blaen; ac yn sydyn fe ddaw'r Arglwydd yr ydych yn ei geisio i'w deml; y mae cennad y cyfamod yr ydych yn hoff ohono yn dod,' medd yr Arglwydd. 'Pwy all ddal dydd ei ddyfodiad, a phwy a saif pan ymddengys?' Diolchwn am y modd mae'r Gair yn cydio'r hen addewidion gyda'r addewidion newydd a ddaeth yn wirionedd yn Iesu Grist.

Yr ydym yn dy garu a'th gofleidio, O Iesu, fel y gwnaeth y pererinion, yn dy alw yn Arglwydd yr arglwyddi am fod dy Groes wedi gwareiddio'r byd. Hoffem weld yn ein dyddiau ni barch at ddynoliaeth ym meddyliau ein harweinwyr yn hytrach na geiriau o gasineb a thrais a dinistr. Anodd i ni heddiw feddwl am unrhyw arweinydd sydd yn dod i'n plith i seinio nodyn o dangnefedd, o ewyllys da, o iacháu yn hytrach na chreu doluriau a diffodd bywydau'r ifanc ar faes y gad. Gwasgar y rhai sy'n dymuno rhyfeloedd fel ffordd i ddysgu gwers i'r unben ac i'r cryf, arfog.

Cryfha ni fel y medrwn gario'r Groes yn feunyddiol heb lesgáu na thristáu ond dilyn Iesu yn y ffordd sy'n arwain i'r bywyd tragwyddol. Diolch felly am yr arweiniad i bawb o'th ddisgyblion heddiw.

Dywedwn: 'Bendigedig fyddo Duw ein Tad am byth!'

Yn ei Enw. Amen.

**Gweddïwn**

Tyrd atom o'r newydd y munudau hyn, O Arglwydd ein Duw, i'n cynorthwyo i fyfyrio a gweddïo, i ystyried yn ddwys ein hanghenion, ac i ddiolch am ddyfodiad y Deyrnas yn Iesu Grist, yn y Gair, yn yr Ysbryd Glân ac yn yr Eglwys Gristnogol.

'Hosanna heddiw'r bore!
O canwn glod i'r anwyla'n bod,
Hosanna heddiw'r bore!
I Iesu, Frenin Nef, yn awr
I Iesu, Frenin Nef.'

Gwyddom yn dda na allwn fyth ddeall na dehongli yn llawn yr holl wybodaeth a roddaist i ni, trwy gyfryngau dynol, am ystyr a chenadwri y Pasg. Ond diolch am yr hyn a fynegwyd gan ddiwinyddion a meddylwyr y canrifoedd, yn athronwyr, llenorion, beirdd, artistiaid, cerflunwyr ac emynwyr.

Ni allwn deithio i unrhyw dref na gwlad, nac ymweld ag unrhyw oriel yn y byd, heb ganfod symbol y Groes neu ddylanwad Iesu, a ddioddefodd waradwydd y dorf ond gydnabyddiaeth y canwriad a chefnogaeth ei rai annwyl. 'Beth yw ei enw ef sy'n Frenin mor nerthol?' meddai un o'n hemynwyr cyn ateb, 'Ef yw Emanuel, ein Duw gyda'i bobol'.

Maddeuodd Iesu'n llwyr a llawn i'w boenydwyr, a dyna a ddisgwylir gennym ninnau heddiw. 'Rho ynom, O Dad, Ysbryd dy Fab i'n cynorthwyo i fyw yn fwy tebyg i'r Hwn a'n carodd hyd yr eithaf.'

'Canwch am ein Gwaredwr,
Iesu fab Dafydd,
Nid oes drwy'r byd a'r nef
Un tebyg i'n Harglwydd.'

Gallwn ddweud heddiw:
'Dyfod mae'n Brenin ni
A mawr yw'n llawenydd,
Agor y pyrth a wnawn
A chanu ei glodydd.'
A hynny byth bythoedd. Amen.